

Adroddiad i'r	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Dyddiad y cyfarfod	5 Tachwedd 2021
Aelod Arweiniol / Swyddog	Y Cyngorydd Hugh Evans, Arweinydd y Cyngor
Awdur yr adroddiad	Gary Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd
Teitl	Amrywiaeth mewn Democratiaeth

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Mae'r adroddiad yn sôn am waith Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) fel rhan o'i Raglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Ar 7 Medi 2021, fe gymeradwyodd y Cyngor y datganiad a nodwyd yn Atodiad 3 yr adroddiad hwn a dirprwyodd y dasg o baratoi cynllun gweithredu i gefnogi'r datganiad i'r Pwyllgor hwn. Diben yr adroddiad hwn yw ceisio cael safbwyntiau'r Pwyllgor ar faterion a allai gael eu cynnwys mewn cynllun gweithredu o'r fath.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1 Fod y Pwyllgor yn ystyried y materion a allai gael eu cynnwys mewn Cynllun Gweithredu Cyngor Amrywiol er mwyn i gynllun drafft manwl gael ei baratoi i'w ystyried.

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Mae gan CLILC Raglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth uchelgeisiol i geisio sicrhau bod siambrau cynghorau yn fwy cynrychioliadol o'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Maent wedi bod yn ystyried ffyrdd o sicrhau mwy o amrywiaeth ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022.

4.2. Ym Medi 2018 cytunodd Cyngor CLILC i gymryd camau i gynyddu cydraddoldeb rhywiol ac amrywiaeth mewn Cynghorau cyn etholiadau 2022. Roedd hyn er mwyn cydnabod y diffyg amrywiaeth sydd yng Nghynghorau Cymru. Sefydlwyd gweithgor trawsbleidiol er mwyn edrych ar dangynrychiolaeth ehangach mewn democratiaeth. Mewn cyfarfod arbennig ym mis Mawrth eleni, cafodd Cyngor CLILC adroddiad gan y gweithgor trawsbleidiol hwnnw gyda chynigion wedi'u cynllunio i gyflawni newid sylweddol mewn amrywiaeth ar ôl etholiadau 2022. Mae'r adroddiad hwn wedi ei atodi fel Atodiad 1.

4.3. Mae'r adroddiad yn nodi rhwystrau i gyfranogiad a gellid eu crynhoi'n fras fel:

- Ymrwymiad amser ac amseroedd cyfarfodydd;
- Diwylliant gwleidyddol a sefydliadol;
- Cyfrifoldebau gofal plant a chyfrifoldebau gofalu eraill;
- Beirniadaeth gan y cyhoedd a chamdriniaeth ar-lein;
- Tâl ac effaith ar gyflogaeth; a
- Diffyg modelau rôl amrywiol a chyfnod mewn swydd

4.4. Cytunodd Cyngor CLILC yn unfrydol bod angen ymdrech unedig a chyfun ar draws teulu llywodraeth leol a phleidiau gwleidyddol. O ganlyniad i'r cyfarfod hwnnw, anfonwyd llythyr at bob Awdurdod Lleol yng Nghymru, wedi'i lofnodi gan bob un o arweinwyr y grwpiau gwleidyddol a gaiff eu cynrychioli ar Gyngor CLILC. Mae copi o'r llythyr hwnnw wedi ei atodi fel Atodiad 2 i'r adroddiad hwn.

4.5. Cytunodd Cyngor CLILC i annog yr holl bleidiau gwleidyddol, trwy Grwpiau Gwleidyddol CLILC, i ymrwymo i weithgareddau rhagweithiol a chydlynol er mwyn gwella amrywiaeth mewn democratiaeth llywodraeth leol. Hefyd cytunwyd ar safbwynt ffurfiol gan alw am gyflwyno 'grantiau adsefydlu' i bob cynghorydd a deiliaid cyflogau uwch, ac annog pob cynghorydd i hawlio unrhyw lwfansau neu dreuliau angenrheidiol, er mwyn sicrhau bod cyfranogiad ar gael i bawb, nid dim ond y rhai a allai fforddio hynny.

4.6. Penderfynodd Cyngor CLILC hefyd y byddent yn cefnogi defnyddio cwotâu gwirfoddol ar gyfer etholiadau lleol Cymru ac y dylai Cynghorau osod targedau i fod yn gynrychioliadol o'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu yn etholiadau 2022.

4.7. Cytunodd Cyngor CLILC hefyd i annog datganiad gan gynghorau yng Nghymru, ar fod yn 'Gynghorau Amrywiol', er mwyn:

- Darparu ymrwymiad clir, cyhoeddus i wella amrywiaeth;
- Dangos diwylliant agored a chroesawgar i bawb;
- Ystyried gwasgaru amseroedd cyfarfodydd y cyngor a chytuno ar gyfnodau o egwyl er mwyn cefnogi cynghorwyr sydd ag ymrwymadau eraill; a
- Gosod cynllun gweithredu ar gyfer gweithgareddau cyn etholiadau lleol 2022.

4.8. Ar 7 Medi 2021 fe benderfynodd Cyngor Sir Ddinbych i ymrwmo i fod yn Gyngor Amrywiol a chymeradwyodd y datganiad a nodir yn Atodiad 3 i'r adroddiad hwn. Fe ddirprwyodd y Cyngor y dasg o baratoi cynllun gweithredu i gefnogi'r ymrwymiad hwn i'r Pwyllgor Democrataidd.

4.9. Mae'r Arweinydd wedi gwahodd holl gynghorwyr benywaidd Cyngor Sir Ddinbych ar 9 Tachwedd fel y gellir cael trafodaeth am eu profiadau o'r rhwystrau y gall merched eu hwynebu wrth sefyll etholiad ac unrhyw welliannau y gellir eu gwneud yn y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio a all ddangos diwylliant agored a chynhwysol a'r camau ymarferol y gellir eu cymryd i wella profiad cynghorwyr benywaidd.

4.10. Mae nifer o gynghorau eisoes wedi mabwysiadu cynlluniau gweithredu i gefnogi eu hymrwymiad i ddod yn gynghorau amrywiol. Nodweddion cyffredin o'r cynlluniau hyn yw camau i gynyddu ymgysylltiad gyda'r cyhoedd a chodi ymwybyddiaeth o rôl cynghorydd a'r cyfraniad cadarnhaol y mae cynghorwyr yn ei wneud. Mae CLILC wedi lansio gwefan 'Byddwch yn Gyngorydd' sy'n cynnwys gwybodaeth am rôl cynghorydd a'r gefnogaeth a'r cyfleoedd i ddatblygu sydd ar gael. Mae'r wefan ar gael yma <https://www.byddwchyngyngorydd.cymru/>. Gellir hyrwyddo hyn i sicrhau fod ymgeiswyr posibl yn cael eu hysbysu'n llawn am y rôl.

4.11. Nodweddion cyffredin eraill y cynlluniau gweithredu hyn yw cydnabyddiaeth o bwysigrwydd iechyd a diogelwch cynghorwyr a'r camau i sicrhau fod aelodau yn derbyn yr hyfforddiant priodol a'r ymwybyddiaeth i'w cynorthwyo

gyda'u lles, gan ei gwneud yn glir na fydd y cyngor yn goddef bwlio na bygwth cynghorwyr, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol.

4.12. Mae'r cynlluniau gweithredu hefyd yn cynnwys camau i wella'r modd y caiff cyfarfodydd eu cynnal i sicrhau y gall pobl a allai fod mewn cyflogaeth llawn amser, sy'n rhedeg eu busnesau eu hunain, neu sydd ag anabledd neu â chyfrifoldebau gofalu, gymryd rhan mewn democratiaeth leol. Fe fydd canlyniad y gwaith, a gaiff ei gynnwys yn yr adroddiad ar raglen y Pwyllgor yn ymwneud â'r Ffyrdd Newydd o Weithio, yn hysbysu cynllun gweithredu'r Cyngor i'r perwyl hwn.

4.13. Fe fydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried adroddiad drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol sy'n nodi penderfyniadau'r Panel mewn perthynas â chydabyddiaeth ariannol i aelodau ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2022-2023. Mae'r Panel yn ymwybodol iawn y gall un o'r rhwystrau i gyfranogiad fod yn ariannol ac yn ei adroddiad drafft mae'n gofyn i Gynghorau annog aelodau i gymryd eu cyflogau yn llawn ac i hawlio lwfansau, fel y rhai sydd ar gael i aelodau gyda chyfrifoldebau gofalu i annog cyfranogiad ehangach gan grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.

4.14. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a thrafod y materion a godwyd yn adroddiad CLILC ac i ystyried y camau all gael eu cynnwys mewn cynllun gweithredu i gefnogi datganiad y Cyngor fel gaiff ei nodi yn Atodiad 3.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn cynnwys ymrwymiad i ymgysylltu, herio a, lle bo modd, cael gwared ar rwystrau i gyfleoedd ar gyfer y rhai hynny sydd â nodweddion a ddiogelir.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Caiff unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r cynllun gweithredu eu nodi yn ystod y broses o ddatblygu'r cynllun hwnnw.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes gofyniad am asesiad o'r effaith ar les ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Nid yw'r adroddiad hwn wedi'i ystyried gan y Pwyllgor Craffu.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Fel y nodir yn adran 6 nid oes goblygiadau ariannol uniongyrchol i'r adroddiad hwn. Byddai angen i'r arian at raid presennol gael ei ddefnyddio i ymdrin ag unrhyw bwysau net o'r cynllun gweithredu yn ystod y flwyddyn a bydd yn cael ei ffactoreiddio i broses y gyllideb ar gyfer 2022/23.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae risg y bydd methu â mynd i'r afael â rhai o'r materion sy'n rhwystr i rai grwpiau mewn cymdeithas rhag cyfranogi yn y broses ddemocrataidd yn cymhell rhai aelodau o'r cyhoedd i beidio â sefyll fel ymgeiswyr mewn etholiadau, ac felly bydd hyn yn cyfyngu ar amrywiaeth cynrychiolaeth.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. a2 Deddf Llywodraeth Leol 2000

11.2. a111 Deddf Llywodraeth Leol 1972